



Eich cyf/Your ref: P-04-483
Ein cyf/Our ref: FM/00705/13

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

William Powell AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Naomi.stocks@wales.gov.uk

1 Gorffennaf 2013

Annwyl William,

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch llythyr dyddiedig 24 Mai at Derek Jones, Ysgrifennydd Parhaol Llywodraeth Cymru. Daw'r ymateb oddi wrtha i gan fod y mater yn ymwneud â gohebiaeth ysgrifenedig oddi wrth Llywodraeth Cymru yn ogystal â chyfathrebu llafar ar lawr y Senedd.

Rwy'n cytuno i'r carn fod ysgrifennu a siarad yn glir yn hollbwysig i unrhyw lywodraeth sy'n ceisio gwasanaethu ei phobl yn deilwng. Pan ges fy ngwneud yn Brif Weinidog Cymru, rhoddais gyfarwyddyd i'r Cabinet a gweision sifil y Llywodraeth ddefnyddio iaith glir, ac osgoi jargon technegol neu broffesiynol heb fod gwir raid.

Mae fframwaith cymwyseddau gwasanaeth sifil Llywodraeth Cymru yn pwysleisio bod angen cyfathrebu'n glir ac yn gryno. Caiff hynny ei bwysleisio hefyd yn y rhaglen ddysgu a datblygu ac yn y canllawiau ar ysgrifennu llythyrau, areithiau, dogfennau ymgynghori a deunyddiau cyfathrebu ar gyfer y cyhoedd. Mae gennym amryw o adnoddau sy'n rhoi arweiniad ar Saesneg a Chymraeg Clir i helpu pobl i ysgrifennu. Disgwylir i holl weision sifil Llywodraeth Cymru ddilyn y canllawiau hyn, gan gynnwys ein cyfreithwyr a'n cyfieithwyr.

Rhaid i gyfreithwyr Llywodraeth Cymru fanteisio ar bob cyfle i ddefnyddio iaith glir a chroyw wrth ddrafftio dogfennau cyfreithiol. Mae Canllawiau Drafftio Deddfwriaethol Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol yn cynnwys cyngor ar ddefnyddio iaith glir, ac mae copi o'r canllawiau ynghlwm. Mae'n hanfodol fod dogfennau cyfreithiol, gan gynnwys deddfwriaeth, yn gywir o safbwynt cyfreithiol. Caiff geiriau eu dewis yn ofalus er mwyn sicrhau bod unrhyw newidiadau i'r gyfraith sy'n cael eu cyflwyno yn sgil deddfwriaeth yn cyflawni amcanion polisi'r Llywodraeth, ac nad ydynt yn arwain at ganlyniadau sy'n groes i'r bwriad.

Mae cyfieithwyr Llywodraeth Cymru yn cael eu hyfforddi i greu testun hawdd ei ddarllen wrth gyfieithu. Caiff cyfieithiadau eu hasesu er mwyn sicrhau eu bod yn ddarllenadwy ac er mwyn barnu a yw'r arddull yn addas ar gyfer y gynulleidfa darged. Disgwylir hefyd i gyfieithwyr gyfleu union gynnwys, ystyr ac arddull y ddogfen wreiddiol er mwyn sicrhau cysondeb rhwng y ddwy iaith.

Yn olaf, mae'r enghreifftiau a ddarparwyd gyda'ch llythyr yn cynnwys dogfen ar ddangosyddion canlyniadau ac olrhain ar gyfer economi Cymru. Mae'n hollbwysig ein bod yn mesur ac yn disgrifio'r hyn rydym yn ei gyflawni fel Llywodraeth, ac rwy'n benderfynol o wneud hynny. Yn yr ail Adroddiad Blynyddol ar y Rhaglen Lywodraethu a gyhoeddwyd ym mis Mehefin, rwyf wedi ceisio bod mor glir â phosibl am yr hyn rydym wedi'i wneud, yr hyn rydym wedi'i gyflawni, a'r hyn sydd eto i'w wneud. Mae tudalennau'r Rhaglen Lywodraethu ar ein gwefan yn egluro'r termau y byddwn yn eu defnyddio i fesur hyn. Gobeithio y byddwch yn cytuno â mi fod hwn yn gam pwysig er mwyn egluro gwaith Llywodraeth Cymru ac er mwyn cynnig gwybodaeth glir am y gwaith sydd wedi'i gyflawni.

Mae'n flaenoriaeth i mi sicrhau bod pobl Cymru yn deall yn glir yr hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud ar eu rhan. Mae'r gwaith eisoes ar y gweill a byddaf innau'n parhau i bwysleisio wrth y Cabinet a swyddogion y Llywodraeth ei bod yn hollbwysig defnyddio iaith glir.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Carwyn Jones', written in a cursive style.

CARWYN JONES